# SYLFEINI SIMSAN: DATRYS LLETY MYFYRWYR




ucm cymru
undeb cenedlaethol y myfyrwyr

nus wales
national union of students

SHELTER CYMRU

Rhif Elusen Gofrestredig: 515902

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| CYFLWYNIAD | 3 |
| CRYNODEB GWEITHREDOL | 4 |
| CIPOLWG AR Y CANFYDDIADAU | 5 |
| AM Y MYFYRWYR | 9 |
| THEMÂU ALLWEDDOL A YSTYRIWYD | 10 |
| CASGLIADAU | 18 |
| ARGYMHELLION | 20 |

# CYFLWYNIAD

Mae'r dirwedd addysgol ôl-16 yng Nghymru wedi newid yn ddirfawr dros y degawd diwethaf ac wedi wynebu mwy fyth o heriau yn y 12 mis diwethaf, wrth ymateb i argyfwng Coronafeirws. Eleni, mae llety a thai myfyrwyr wedi bod ar flaen y drafodaeth, gan ddod i gasgliadau tebyg i'r ddadl newydd ehangach ar dai a gafwyd yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan NUS Cymru ac a weithredwyd gan Shelter Cymru, yn datgelu rhai o'r camsyniadauam fyfyrwyr a'u sefyllfaoedd preswyl ledled y sector ôl-16 yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar arolwg a gynhaliwyd ledled Cymru gan Shelter Cymru ym Mai a Mehefin 2021.

Mae'r canfyddiadau'n helpu i gyflwyno darlun o brofiadau myfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2020-21, gan roi gwell dealltwriaeth i ni o'r problemau mae myfyrwyr yn eu hwynebu pan ddaw hi'n fater o gael cartref saff a diogel.

## RHAGAIR



**Becky Ricketts, Llywydd UCM Cymru**

Ers degawdau mae tai myfyrwyr wedi bod yn ddihareb am ansawdd isel. Mae cael eu blingo gan landlordiaid gwael, byw gyda dyfeisiadau sydd wedi torri a gorfod dioddef lleithder a llwydni yn cael eu gweld fel rhan gyffredin o fywyd myfyrwyr, i'w goddef a'u gadael heb eu herio.

Wrth gwrs, roedd hyn yn beth drwg pan oedd llety myfyrwyr yn rhatach nag unrhyw fath arall o dai, ond gyda chostau yn cynyddu, mae bellach yr un mor anodd dod o hyd i rywle fforddiadwy i fyw ag y mae i ddod o hyd i rywle sydd o ansawdd da ac yn ffit i bobl fyw ynddo.

Fel Llywydd UCM Cymru, rydw i am herio'r syniad y dylai myfyrwyr oddef tai israddol fel rhan o'r daith. Dyna pam rydym yn gweithio gyda Shelter Cymru i daflu goleuni ar anghyfiawnderau ym maes tai myfyrwyr a dangos yr angen am hawliau ac amddiffynfeydd cryfach i fyfyrwyr sy'n rhentu.

Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli cam cyntaf y gwaith hwnnw ac yn dangos y graddau y mae problemau tai yn effeithio ar fywydau pob dydd myfyrwyr. Fel sail i wybodaeth ar gyfer yr adroddiad, gwnaethom holi cannoedd o fyfyrwyr mewn prifysgolion ar draws Cymru, gan ddatgelu eu profiadau o dai, a'r effaith go iawn, niweidiol y mae llety o ansawdd isel yn ei gael ar fyfyrwyr.

Yn ôl ein harolwg, mae mwy na hanner myfyrwyr Cymru yn byw gyda lleithder neu lwydni yn eu llety. Mae 46 y cant yn goddef diffyg atgyweirio a 31 y cant wedi cael problemau gyda'u landlordiaid. Dydy'r niferoedd hyn ddim yn syndod i nifer o fyfyrwyr, ond effeithiau'r problemau hyn sydd o'r pryder mwyaf.

Mae'n amlwg bod y lle rydych yn byw ynddo yn cael effaith sylfaenol ar ansawdd eich bywyd, ond mae ein harolwg yn dangos yn uniongyrchol sut y mae tai israddol yn effeithio ar yr argyfwng iechyd meddwl ymhlith myfyrwyr. Yn syfrdanol, dywedodd 65 y cant wrthym - bron i dwy ran o dair o'r myfyrwyr – bod problemau tai wedi cael effaith ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Rydym eisoes yn gwybod bod myfyrwyr yn profi mwy o broblemau iechyd meddwl na'r cyhoedd yn gyffredinol, a bod cyfuniad o bwysau ariannol, cymdeithasol ac academiadd yn cyfrannu tuag at hyn. Ychwanegwch tai i'r gymysgedd hyn a chawn ddarlun clir o sut mae amgylchedd myfyrwyr yn cael effaith sylfaenol ar eu lles tra yn y brifysgol.

Dywedodd 35 y cant o fyfyrwyr bod problemau tai wedi effeithio ar eu hiechyd corfforol a dywedodd 26 y cant bod hyn wedi effeithio ar eu cyrhaeddiad academiadd – problem sydd wedi'i gwaethygu gan y pandemig pan bu'n rhaid i fyfyrwyr dreulio mwy o amser nag erioed yn astudio yn eu hystafelloedd.

Mae'r ffigyrau yn siarad drostynt eu hunain, a mae ein gofynion yn syml yn sylfaenol – i bob myfyriwr i gael eu amddiffyn yn gyfartal, i bob myfyriwr fedru dwyn landlordiaid i gyfrif, ac i bob myfyriwr fedru fforddio byw mewn tai diogel a gweddus. Mae sylfaen dystiolaeth glir yma am newid yn y sector tai myfyrwyr.

Mae ein gofynion yn syml, a gobeithiaf y bydd yr adroddiad hwn yn fan cychwyn i newid gwirioneddol i fyfyrwyr. Mae tai myfyrwyr yn doredig ar y sylfeini, mae'n bryd datrys hyn unwaith ac am byth.

# CRYNODEB GWEITHREDOL

- Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yng Nghymru yn byw yn y sector rhentu preifat;
- Mae dros 75% o fyfyrwyr yn talu hyd at £120 yr wythnos am eu llety;
- Dim ond 4 o bob 10 myfyriwr ddywedodd fod eu llety yn werth da, neu'n werth da iawn am arian, dywedodd bron i 1 o bob 4 myfyriwr fod eu llety yn wael, neu'n wael iawn;
- Dywedodd dros hanner y myfyrwyr fod lleithder a llwydni yn broblemau yn eu cartrefi, dywedodd 46% o fyfyrwyr fod atgyweiriadau yn broblem a dywedodd 31% o fyfyrwyr eu bod wedi cael problemau gyda'u landlord;
- Dywedodd 1 o bob 3 myfyriwr fod fforddiadwyedd eu llety yn broblem;
- Dywedodd dros hanner y myfyrwyr y byddent yn gofyn i deulu a ffrindiau eu helpu gyda phroblemau yn eu llety;
- Dywedodd 31% o fyfyrwyr y byddent yn gofyn am gymorth gan eu hundeb myfyrwyr, dywedodd 30% y byddent yn gofyn i'w darparwr addysg am gymorth;
- Dywedodd 22% o fyfyrwyr y byddent yn gofyn am gymorth gan Cyngor ar Bopeth a dim ond 8% o fyfyrwyr y byddent yn gofyn i Shelter Cymru am gymorth gyda'u llety;
- Dywedodd 65% fod problemau gyda'u llety wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles meddyliol;
- Dywedodd 35% o fyfyrwyr fod problemau gyda'u llety wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles corfforol;
- Dywedodd mwy nag 1 o bob 4 myfyriwr fod problemau gyda'u llety wedi cael effaith negyddol ar eu cyflawniad academaidd.

## ARGYMHELLION

Credwn y gall yr argymhellion canlynol ddechrau'r broses o gyflwyno'r newid gwirioneddol sydd ei angen er mwyn datrys y problemau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.


1. **Rhaid i'r holl fyfyrwyr gael yr un hawliau ac amddiffyniadau ble bynnag maent yn byw**
   Mae'r farchnad dai myfyrwyr yn bodoli ar gyfer myfyrwyr. Dylai pob myfyriwr gael yr un amddiffyniadau â phob myfyriwr arall beth bynnag yw ei gefndir neu pwy bynnag yw ei ddarparwr llety. Rhaid i'r system ddechrau gyda'r myfyriwr, nid gyda'r landlord.

2. **Rhaid i bob myfyriwr allu dal ei landlord i gyfrif**
   Rhaid sicrhau atebolrwydd priodol i ddarparwyr sy'n torri'r rheolau. Waeth pa fath o ddarparwr ydynt, mae'n rhaid dal pob un i'r un safon ac mae'n rhaid i fyfyrwyr allu cael gafael ar gymorth yn syml a hawdd.

3. **Rhaid i bob myfyriwr allu fforddio byw mewn tŷ diogel ac iach**
   Mae fforddiadwyedd yn diflannu o'r sector. Mae'r system gyfredol yn cosbi'r rhai tlotaf ac mae nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yn lleihau bob blwyddyn. Ni ddylai myfyrwyr orfod dewis rhwng fflatiau llaith neu dalu rhenti gwirion o uchel.


# CIPOLWG AR Y CANFYDDIADAU

**Ym mha fath o lety mae myfyrwyr yn byw?**




Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn byw yn y sector rhentu preifat, naill ai mewn tai amlfeddiannaeth neu'n rhentu eu cartref ar eu pen eu hunain neu gyda phartner/plant. Mae nifer sylweddol o fyfyrwyr yn byw mewn neuaddau preswyl sy'n eiddo i'r brifysgol.


**Faint y mae myfyrwyr yn ei dalu?**




Roedd mwyafrif llethol y myfyrwyr a holwyd yn talu £120 neu lai yr wythnos, er bod nifer sylweddol o fyfyrwyr yn talu mwy na hyn.


# CIPOLWG AR Y CANFYDDIADAU

**Gwerth am Arian**




Dim ond 40% o fyfyrwyr ddywedodd fod eu llety yn "dda" neu "da iawn" o ran gwerth am arian. Dywedodd bron i 25% o fyfyrwyr fod eu llety yn "wael" neu'n "wael iawn" o ran gwerth am arian.

**Pa broblemau mae myfyrwyr yn eu hwynebu yn eu llety?**





Y broblem fwyaf cyffredin o bell ffordd oedd lleithder neu lwydni, gyda thros hanner y myfyrwyr yn dweud bod hyn yn broblem yn eu llety. Roedd cyflwr gwael yn ail agos a phroblemau gyda fforddio llety yn broblem gyffredin arall. Y prif themâu a adroddwyd yn yr adran "arall" oedd:

- Llety myfyrwyr yn cael ei rentu i bobl nad ydynt yn fyfyrwyr;
- Trosglwyddo taliadau am ddifrod a/neu gyfleustodau o'r tenantiaid blaenorol i'r tenantiaid newydd cyn iddynt symud i mewn hyd yn oed;
- Diffyg lle, y tu mewn a'r tu allan;
- Dodrefn a chyfarpar o ansawdd gwael;
- Llygredd sŵn.


# CIPOLWG AR Y CANFYDDIADAU

**Ble mae myfyrwyr yn mynd i gael cymorth?**




Dywedodd mwy na 50% o fyfyrwyr y byddent yn troi at ffrindiau neu deulu pe byddent angen cymorth gydag unrhyw broblemau tai. Dywedodd tua 1 o bob 3 y byddent yn gofyn am gymorth gan eu Hundeb Myfyrwyr neu ddarparwr addysg. Yn ddiddorol, dywedodd ychydig o fyfyrwyr y byddent yn gofyn am gyngor gan arbenigwyr tai a chyngor fel Cyngor ar Bopeth (22%) a Shelter Cymru (8%).


**A yw problemau gyda'ch llety wedi effeithio arnoch chi?**




Roedd hi'n syfrdanol clywed bod 65% o fyfyrwyr yn dweud bod problemau gyda'u llety wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles meddyliol. Dywedodd 35% arall fod tai wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd corfforol a mwy nag 1 o bob 4 fod problemau tai wedi cael effaith negyddol ar eu cyflawniad academaidd. Mae hyn yn dangos cysylltiad clir rhwng tai myfyrwyr ac agweddau sylfaenol eraill ar eu bywydau.

# CIPOLWG AR Y CANFYDDIADAU

**Ydych chi erioed wedi teimlo dan bwysau i lofnodi contract am lety heb ei ddeall neu gael amser i ystyried eich opsiynau?**





Roedd dros 40% o fyfyrwyr yn dweud eu bod wedi teimlo dan bwysau i lofnodi contractau neu gytundebau prydles heb eu deall yn llawn, neu gael amser i ystyried eu hopsiynau.

# AM Y MYFYRWYR

Arolygodd Shelter Cymru 293 o fyfyrwyr o sector ôl-16 Cymru rhwng Mai a Mehefin 2021. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn yr ystod oedran myfyrwyr mwyaf stereoteip, gyda thros 70% o ymatebwyr yn 16-25 oed.

Grwpiau Oedran Ymatebwyr




Roedd tua 20% o ymatebwyr yn astudio ar gyfer cymhwyster ôl-radd, dros 70% o ymatebwyr yn astudio cymwysterau ar L4-L6 a 6% o ymatebwyr yn astudio cymwysterau ar L3.

Roedd bron i 90% o ymatebwyr yn fyfyrwyr cartref, a thua 10% o ymatebwyr yn fyfyrwyr Rhyngwladol/UE/AEE.

Cawsom ymateb da gan y sector addysg uwch yng Nghymru, gydag atebion gan:

- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd

Derbyniwyd nifer o ymatebion gan ddarparwyr addysg bellach hefyd, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gŵyr a Choleg Sir Gâr. Ni nododd ychydig o ymatebwyr yn glir pa sefydliad addysgol oeddynt yn aelod ohono.

Yn ddaearyddol, cafwyd cynrychiolaeth o'r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdod lleol yn yr ymatebion. Yr unig ardaloedd heb ymatebwyr oedd Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen. Efallai fod hyn yn adlewyrchu niferoedd yr ymatebwyr o sefydliadau AU, o ystyried nad oes sefydliad addysg uwch yng nghyffiniau un o'r awdurdodau lleol hynny.

# THEMÂU ALLWEDDOL A YSTYRIWYD

**Ym mhle mae myfyrwyr yn byw?**
Canfu ein hymchwil fod tua 45% o ymatebwyr yn byw mewn tai amlfeddiannaeth yn y sector rhentu preifat. Ymatebodd bron i 20% arall trwy ddweud eu bod nhw hefyd yn byw yn y sector hwnnw ond nid mewn tŷ amlfeddiannaeth, gan rentu ar eu pen eu hunain neu gyda phartner.

Dim ond tua 15% o ymatebwyr ddywedodd eu bod yn byw mewn llety prifysgol/coleg a thua 5% mewn llety myfyrwyr preifat wedi'i adeiladu'n bwrpasol.

Dywedodd 6% o ymatebwyr eu bod yn byw yn eu cartref eu hunain gyda morgais neu a oedd yn eiddo iddynt heb forgais ac roedd 5% arall yn byw gyda theulu neu ffrindiau am ddim neu am rent is.

Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r darlun y gallwn weld mewn setiau data cyfredol eraill yn fras. Mae HESA yn dangos "llety rhent arall" fel dewis clir ymysg eu setiau data, ond nifer cryf arall yn nodi "cartref fy hun" y maent yn ei ddosbarthu fel "cartref parhaol myfyriwr, a allai fod yn eiddo iddo neu'n cael ei rentu ganddo." Mae data HESA hefyd yn dangos "eiddo a gynhelir gan ddarparwr" a "neuaddau sector preifat" gyda ffigurau tebyg i'n data ni.

Mae ein canfyddiadau'n dangos bod llawer o fyfyrwyr yng Nghymru yn byw yn y sector rhentu preifat, naill ai mewn tŷ amlfeddiannaeth neu'n rhentu eu cartref ar eu pen eu hunain neu gyda phartner. Rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth allweddol wrth ystyried y ffordd orau o rymuso myfyrwyr i gefnogi eu hunain a'i gilydd a sut mae sefydliad cyngor ac eiriolaeth yn cefnogi myfyrwyr.

**Faint mae myfyrwyr yn ei dalu?**
Gosododd ychydig dros 40% o ymatebwyr eu hunain yn yr opsiwn £91-£120 yr wythnos, gyda thua 34% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn talu llai na £90 yr wythnos. Mae hyn ychydig yn wahanol i ganfyddiadau Arolwg Llety Myfyrwyr Cenedlaethol Save the Student sy'n awgrymu bod rhent wythnosol cyfartalog Cymru yn £121.

Bydd myfyrwyr o Gymru sy'n byw yng Nghymru ond i ffwrdd o gartref, ac yn astudio'n llawn amser ar lefel israddedig yn derbyn £10,350 o gymorth cynhaliaeth ar ffurf grantiau a benthyciadau'n dibynnu ar incwm eu cartref. Mae hyn yn rhoi £862.50 ar gyfer pob mis. Mae adroddiad Costau Byw Cyfartalog Myfyrwyr Save the Student yn awgrymu y bydd y myfyriwr cyffredin yn y DU yn gwario tua £795 y mis, ar amrywiaeth o bethau fel rhent, bwyd a deunyddiau cyrsiau. Fodd bynnag, yn yr amcangyfrif hwn mae rhent wedi'i gyfrif fel £418 y mis, sy'n cyfateb i ganfyddiadau isaf ein hadroddiad.

Gall hyn esbonio rhywfaint pam y nododd dros 30% o ymatebwyr i'n harolwg fforddiadwyedd fel un o'r problemau mwyaf sydd ganddynt gyda'u llety myfyrwyr. Efallai mai dyma pam hefyd, yn ôl UCAS fod tua 40% o fyfyrwyr yn eu hail flwyddyn neu fwy yn defnyddio gwaith am dâl yn ogystal â'u cyllid myfyrwyr i dalu am eu llety. Yn ôl adroddiad Save the Student , roedd 50% o ymatebwyr yn 'cael trafferth gyda thaliadau rhent'.

O ystyried bod nifer anghymesur o fyfyrwyr a phobl ifanc yn gweithio mewn gwaith ansefydlog, tâl isel, dylai hyn fod yn ystyriaeth allweddol i lunwyr penderfyniadau wrth geisio gwella profiadau a bywydau myfyrwyr yng Nghymru.

**Gwerth am arian?**
Dywedodd tua 35% o ymatebwyr fod eu llety yn werth 'digonol' am arian, gyda thua 25% yn dweud ei fod yn werth 'da' am arian a 15% yn dweud ei fod yn 'dda iawn'. Mae hyn yn cyferbynnu â thua 16% o fyfyrwyr a oedd yn dweud bod eu llety yn werth 'gwael' am arian a thua 7% oedd yn dweud ei fod yn 'wael iawn'. Yn adroddiad Save the Student , dywedodd 1 o bob 2 o ymatebwyr fod eu llety yn 'werth gwael am arian' – gostyngiad o 10%.

# THEMÂU ALLWEDDOL A YSTYRIWYD

Er bod mwyafrif llethol y myfyrwyr yn credu bod eu llety yn werth 'digonol' am arian neu well, roedd bron i 1 o bob 4 o'r myfyrwyr a ymatebodd i'n harolwg yn credu bod eu llety yn 'wael' neu'n 'wael iawn' a dylai hyn fod yn destun pryder. Mae data StatsCymru ar gyfer 2019/20 yn awgrymu bod bron 135,000 o fyfyrwyr llawn amser mewn addysg uwch yng Nghymru. Os yw 1 o bob 4 ohonynt yn teimlo bod eu llety'n 'wael' neu'n 'wael iawn' byddai hynny'n gyfystyr â thua 33,750 o fyfyrwyr yn byw mewn llety nad oedd hyd yn oed yn werth 'digonol' am arian. Mae'r nifer hwn tua'r un faint â phoblogaeth gyfan Aberdar a thua dwywaith poblogaeth Caerfyddin.

Cwestiwn allweddol i lunwyr penderfyniadau yn y gofod hwn yw a ydynt yn barod i dderbyn safonau o'r fath? A pha opsiynau am gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr? Ni fydd gan fyfyrwyr fawr o brofiad o fyw i ffwrdd o gartref a ble neu sut i fynd i'r afael â phroblemau gyda'u llety os o gwbl.

Mae llawer yma y gellir ei gymharu â'r argyfwng tai ehangach yng Nghymru, lle mae codiadau mewn rhent yn uwch na chodiadau mewn cyflog neu daliadau cynnal i'r myfyrwyr niferus sy'n methu gweithio. Mae hyn yn ystyriaeth ychwanegol i fyfyrwyr sy'n dod i Gymru o wledydd eraill y DU, lle mae taliadau cynnal i fyfyrwyr yn llai.

**Pa broblemau mae myfyrwyr yn eu hwynebu yn eu llety?**

Nid yw'n syndod bod dros hanner ein hymatebwyr wedi nodi lleithder a llwydni fel problem roeddynt wedi gorfod ei hwynebu yn eu llety myfyrwyr. Atgyweiriadau oedd yr ail broblem fwyaf cyffredin, gyda thua 46% o ymatebwyr yn nodi diffygion yn eu llety. Fel y crybwyllwyd uchod, dywedodd tua 1 o bob 3 o ymatebwyr fod fforddiadwyedd yn broblem a dywedodd 31% o ymatebwyr eu bod wedi cael problemau gyda'u landlord.

Mae hyn yn weddol debyg i lwyth achosion ehangach Shelter Cymru, gyda lleithder/atgyweiriadau, cyngor ariannol/dyledion a phroblemau gyda landlordiaid yn broblemau cyffredin y mae ein gwasanaethau cynghori wedi ymdrin â nhw gydol misoedd cynnar 2021.

Roedd ymatebwyr eraill wedi nodi problemau llety a oedd yn gysylltiedig â Covid. Dywedodd un myfyriwr a oedd yn rhentu yn y sector rhentu preifat fod ei gontract "ar waith ar gyfer Medi 2020 cyn i COVID daro - don i ddim angen yr eiddo gan fod y coleg ar gau a bod yna gyfyngiadau gydol y denantiaeth gyfan."

Dywedodd ymatebydd arall a oedd yn byw mewn neuadd prifysgol "nad oedd gwasanaethau a ddarparwyd ar ein cyfer ni'n cael eu defnyddio e.e. ystafelloedd astudio, ystafelloedd cyffredin, ystafell gemau (hyd yn oed gyda covid, roedd myfyrwyr mewn llety prifysgol arall yn cael mynediad i fanno)" a dywedodd myfyriwr arall a oedd yn byw mewn neuadd prifysgol fod "Contractwyr yn crwydro i mewn ac allan heb fasgiau, yn enwedig ym mis Medi, yn cerdded i mewn i ystafelloedd pobl heb gnocio." Soniodd mwy o fyfyrwyr a oedd yn rhentu yn y sector rhentu preifat am bwysau ychwanegol y cyfnod clo a chael eu cyfyngu i le bach, gan ddweud nad oedd ganddynt "unrhyw le tu allan, a golau dydd gwael iawn" a dywedodd un arall fod ei "ystafell wely'n rhy fach heb ffenestr." Mae'r canfyddiadau hyn yn cadarnhau ein hadroddiad Life in Lockdown wlle gwelwyd problemau tebyg ledled Cymru gydol y cyfnod clo cyntaf.

# THEMÂU ALLWEDDOL A YSTYRIWYD

Wrth edrych ymhellach ar rai o'r problemau mwyaf cyffredin, roedd rhai o'r enghreifftiau o ddiffyg atgyweirio a rannwyd gan ymatebwyr yn frawychus:

"Tap wedi torri, cawod yn gollwng, WiFi ddim yn gweithio, dolen y drws wedi torri, postyn gwely wedi torri ac fe dorrais fy hun arno, problem gyda'r toiledau'n gorlifo, system wresogi ddim yn gweithio" - myfyriwr yn byw mewn llety prifysgol.

"Torrodd y boeler yn y gaeaf ac ni chafodd ei drwsio am fisoedd. Torrodd y peiriant golchi, roedd gen i ddillad budr am hydoedd nes i ni gael un newydd." – Myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

"Cyfarpar ddim yn gweithio, dyw pob drws ddim yn ddrws tân, doedd y drws ddim yn cloi am fisoedd, roedd y ffan echdynnu wedi torri, yr ystafell ymolchi'n ogleuo fel carthffosydd, y nenfydau'n gollwng, y landlord yn llwgrwobrwyo, mae'r boeler heb gael gwasanaeth yn ddiweddar, dyw'r landlord ddim yn ymateb i negeseuon ac mae'n anfon ei ffrindiau draw i 'drwsio' pethau" - Myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Roedd asiantau tai'n thema gyffredin yn ein hymatebion, gyda sawl myfyriwr yn awgrymu bod eu hasiantau tai'n cyfrannu at oedi wrth ddadlau am atgyweiriadau, yn ddifater am y myfyrwyr ac yn anwybyddu pryderon a godwyd gyda nhw. Dyma rai enghreifftiau o'r ymatebion:

"Dyw'r asiantaeth rentu ddim yn poeni am y tŷ na'r amodau byw sydd gennym" – Myfyrwyr sy'n rhentu tŷ amlfeddiannaeth.

"Dyw'r asiantaeth rentu ddim yn ymateb" – Myfyriwr yn rhentu tŷ amlfeddiannaeth.

"Dyw'r asiantaeth ddim yn rhoi gwybod i ni am filiau oedd heb eu canslo gan y tenantiaid blaenorol, felly gorfod talu am fisoedd pan nad oedden ni yn y tŷ" – Myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.



# THEMÂU ALLWEDDOL A YSTYRIWYD

**Ble mae myfyrwyr yn mynd i gael cymorth?**
O ystyried pa mor gyffredin yw'r problemau a welwyd uchod, roeddem yn teimlo ei bod hi'n bwysig gofyn ble roedd myfyrwyr yn mynd i gael cymorth gyda phroblemau llety. Dangosodd ein canfyddiadau y byddai:

- Dros 50% o ymatebwyr yn troi at deulu neu ffrindiau;
- Dros 30% o fyfyrwyr yn gofyn am gyngor gan eu hundeb myfyrwyr a nifer tebyg gan eu prifysgol neu goleg;
- Dim ond 22% o fyfyrwyr yn gofyn am gyngor gan Cyngor ar Bopeth;
- Hyd yn oed llai, 7% o fyfyrwyr yn gofyn am gymorth gan Shelter Cymru.

Mae hyn yn amlwg yn her allweddol i'w goresgyn – deall pam nad yw myfyrwyr yn troi at wasanaethau cymorth annibynnol a phroffesiynol sy'n rhad ac am ddim, a sut y gallwn ni ddatrys hyn?

Canfyddiadau eraill o'r cwestiwn hwn oedd:

- Byddai tua 24% o fyfyrwyr yn defnyddio fforymau ar-lein neu'r cyfryngau cymdeithasol i chwilio am gyngor a chymorth;
- Dywedodd 12% y byddent yn gofyn am gymorth gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol;
- Dywedodd llai na 10% y byddent yn siarad â'u tiwtor personol neu ddarlithydd.

O ystyried y bydd llawer o fyfyrwyr yn siarad â theulu neu ffrindiau am broblemau, neu'n troi at undeb y myfyrwyr neu ddarparwr addysg – sut y gallwn ni baratoi'r grwpiau hyn yn well i allu cefnogi a chyfeirio at gymorth proffesiynol?

**Sgil-effaith llety ar fywydau pobl – cartref yw popeth**
Cartref yw popeth i Shelter Cymru. Heb gartrefi o ansawdd da sy'n saff a diogel, mae'n amhosibl byw bywydau iach, hapus a chynhyrchiol. Gwelir hyn yn ein canfyddiadau, gyda nifer sylweddol – 65% - o ymatebwyr yn dweud bod problemau gyda'u llety wedi effeithio ar eu hiechyd a'u lles meddyliol. Canfyddiadau ychwanegol:

- Dywedodd 35% o ymatebwyr fod problemau gyda'u llety wedi effeithio ar eu hiechyd a'u lles corfforol;
- Dywedodd 26% o ymatebwyr fod problemau gyda'u llety wedi effeithio ar eu cyflawniad academaidd;
- Dywedodd 24% fod problemau gyda'u llety wedi effeithio ar eu perthynas gyda'u teulu neu ffrindiau;
- Dywedodd 12% fod problemau gyda'u llety wedi effeithio ar eu hymrwymiadau gwaith neu wirfoddoli.

Yn ôl un myfyriwr, a oedd yn byw mewn tŷ a rennir ei fod wedi "Sefyll arholiad gyda llygoden fawr yn crwydro'n swnllyd yn y cwpwrdd" – gan ychwanegu at y darlun o 24% o ymatebwyr a ddywedodd fod plâu a llygod yn broblem yn eu llety.

Nid yw'r ffaith fod cysylltiad rhwng tai gwael ac amodau iechyd gwael, llai o gynhyrchiant a bylchau addysg yn newydd. Mae adroddiad Shelter Cymru, Life in Lockdown yn ychwanegu cyd-destun pellach i lawer o'r problemau a godwyd gan ymatebwyr. Ar ôl treulio cymaint o'u hamser mewn llety gydol 2020 a 2021, hwyrach y gellid disgwyl y byddai mwy o sgil-effeithiau – fodd bynnag, nid yw hyn yn gwneud y sefyllfa'n fwy derbyniol i'r miloedd o fyfyrwyr a gafodd eu heffeithio.

**A yw myfyrwyr wedi teimlo dan bwysau i lofnodi contract am lety heb ei ddeall neu gael amser i ystyried opsiynau eraill?**
Dywedodd nifer brawychus - 40% - o ymatebwyr eu bod - ar ryw adeg – wedi teimlo dan bwysau i lofnodi contract llety heb ei ddeall, neu cyn iddynt gael amser i ystyried eu dewisiadau.

Mae'r canfyddiadau hyn yn codi cwestiynau difrifol am ymddygiad darparwyr llety ledled Cymru. Mae'r argyfwng tai presennol wedi cyfrannu at or-wasgfa yn y farchnad dai, lle rydym ni'n cefnogi miloedd o bobl y gofynnir

# THEMÂU ALLWEDDOL A YSTYRIWYD

iddynt dalu symiau mawr o rent ymlaen llaw, sy'n dweud bod eiddo'n cael ei werthu neu ei osod cyn iddynt allu ei weld ac sy'n cael trafferth i ddod o hyd i gartref.

Mae adroddiad UCAS ar lety'n dangos bod dros 25% o fyfyrwyr yr ail flwyddyn neu flynyddoedd dilynol yn sicrhau eu llety ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf erbyn mis Rhagfyr. Canfu eu hymchwil fod 18% o fyfyrwyr Caerdydd wedi sicrhau eu llety ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf erbyn mis Hydref – ychydig wythnosau i mewn i'r calendr academaidd. Dangosodd eu canlyniadau hefyd fod "bron 40% o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn cael cynnig cymhelliad wrth chwilio am rywle i fyw" – sy'n dangos eto bod y sector tai dan bwysau ac yn cael ei yrru gan y farchnad.

Gallwn weld hefyd mai dim ond 37% o fyfyrwyr y flwyddyn olaf oedd yn bwriadu aros yng Nghaerdydd ar ôl graddio, un o'r isaf yn yr arolwg – o gymharu â 51% ym Mryste, 52% ym Manceinion a 56% yng Nghaeredin. Dim ond Nottingham oedd yn cadw llai o raddedigion, gyda 26% yn bwriadu aros. A yw'r argyfwng tai yng Nghymru, yn enwedig Caerdydd, o bosibl yn helpu i gyfrannu at ymadawiad y bobl ddawnus hyn?

Am ba reswm bynnag, mae'r ymddygiad hwn yn gyson â'n canfyddiadau ni ar droi tenantiaid allan yn anghyfreithlon ac aflonyddu arnynt , sydd wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r tueddiadau hyn yn dangos lefel o ymddygiad sy'n annerbyniol i denantiaid ar draws y sector rhentu preifat – yn fyfyrwyr ac eraill.

**Gofynnwyd i'r myfyrwyr pe byddai'r gallu ganddynt i newid un peth am lety myfyrwyr, beth fyddai hwnnw a pham?**
Ar ôl carfanu ymatebion ansoddol i'r cwestiwn yn ôl thema, gwelsom sawl thema a maes unigryw y byddai myfyrwyr yn eu newid am eu llety.

**Arian**
Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn canolbwyntio ar fforddiadwyedd a gwerth am arian. Roedd llawer o'r ymatebion yn y gofod hwn yn bwyllog a chytbwys iawn, yn awgrymu y dylid gwella ansawdd i ddarparu gwell gwerth am arian ac y dylid adolygu prisiau i liniaru yn erbyn budrelwa a safonau isel.

Cyfeiriwyd hefyd at y sefyllfa annheg roedd cymaint o fyfyrwyr yn gorfod ei hwynebu wrth dalu am lety ymlaen llaw a methu â defnyddio eu llety'n rhannol neu'n gyfan yn sgil cyfyngiadau Coronafeirws. Dyma rai enghreifftiau:

> "Y pris gan ein bod yn gorfod byw yma er mwyn mynd i brifysgol ond dyw'r Benthyciad Myfyriwr isaf ddim yn gallu talu amdano sy'n chwerthinllyd" – myfyriwr yn byw mewn llety myfyrwyr preifat wedi'i adeiladu'n bwrpasol.

> "Rhenti wedi'u capio. Mae landlordiaid yn manteisio ar fyfyrwyr gan eu bod yn gwybod bod rhaid iddyn nhw ddod o hyd i le i fyw. Dylai rhenti gyfateb i ansawdd y llety. Ni ddylai landlordiaid allu codi rhenti uchel am lety gwael" - myfyriwr yn rhentu yn y sector rhentu preifat.

> "Rhatach. Dwi'n gorfod dibynnu ar deulu/ffrindiau'n aml i roi bwyd i fi gan fy mod i naill ai'n talu'r rhent a'r biliau neu'n prynu bwyd" – myfyriwr sy'n rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Cyfeiriodd sawl ymateb yn benodol at broblemau ariannol a oedd yn deillio o bandemig Covid-19. Yn ddiddorol, roedd yr ymatebion hyn yn dod o'r sector rhentu preifat yn bennaf, a allai adlewyrchu penderfyniad prifysgolion i gynnig ad-daliad rhent i fyfyrwyr a oedd yn llai cyffredin mewn mathau eraill o lety. Roedd y pecynnau cymorth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyffredinol wedi galluogi prifysgolion i wneud hyn, ond nid oedd y cymorth hwn wedi ei roi

# THEMÂU ALLWEDDOL A YSTYRIWYD

i sectorau eraill o lety myfyrwyr, er gwaethaf y ffaith nad yw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn byw mewn llety prifysgol.

**Atebolrwydd a Chymorth**
Dewisodd nifer o ymatebwyr dynnu sylw at broblemau ynghylch atebolrwydd landlordiaid/asiantau ac opsiynau – neu ddiffyg opsiynau – am atebolrwydd. Yn aml, roedd ymatebwyr yn gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng eu landlord a/neu'r asiant a'r problemau yr oeddynt wedi'u hwynebu gyda'u llety a thra bod mwyafrif yr ymatebion yn y maes hwn yn dod o'r sector rhentu preifat, roedd yna ymatebion o lefydd eraill hefyd. Dyma rai enghreifftiau:

> "Yr asiantaethau gosod yn benodol, dyw'r landlordiaid ddim yn rhy ddrwg ond mae cyfathrebu gyda'r asiantaethau yn erchyll, anaml iawn fyddan nhw'n datrys pethau" - myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

> "Cyfathrebu'n hawdd gyda landlord, gan fod ein landlord ni'n cymryd hydoedd i ddod yn ôl atom ni, a byth yn gwneud beth mae'n dweud ei fod am wneud beth bynnag" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

> "Bod landlordiaid yn cael eu dal i safon uwch gan fod y rhan fwyaf o eiddo mewn cyflwr gwael, sy'n eich gorfodi chi i dalu mwy am amodau byw gwell. Roedd yna broblem llwydni difrifol yn ein heiddo blaenorol na chafodd ei drin (a phroblemau eraill) na fydden ni byth am eu dioddef eto gan eu bod wedi achosi cymaint o broblemau i ni, yn gymdeithasol ac o ran ein hiechyd" – myfyriwr yn byw yn y sector rhentu preifat.

Awgrym cyffredin oedd y gallai darparwyr addysgol helpu gyda dull o atal landlordiaid gwael drwy argymell/cefnogi landlordiaid da yn eu hardaloedd lleol. Mae enghreifftiau o'r arfer hwn yn bodoli eisoes yng Nghymru, er eu bod yn amrywio:

- SAS Lettings, sy'n gofyn i landlordiaid sy'n dymuno hysbysebu eu heiddo gyda Phrifysgol Abertawe drwy StudentPad i gofrestru eu prawf o drwyddedau, tystysgrifau diogelwch a'u cyflwyno i'r sefydliad i gael eu harchwilio;
- Cardiff Student Letting (CSL) sy'n cael ei weithredu gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, yn gofyn i landlordiaid sydd am i CSL reoli neu hysbysebu eu heiddo gwblhau proses ymgeisio debyg a darparu cyd-destun defnyddiol drwy eu llyfryn a'u proses ymgeisio;
- Prifysgol De Cymru mae Prifysgol De Cymru hefyd yn darparu rhestr o eiddo a gymeradwywyd gan y Brifysgol drwy Studentpad ac yn cefnogi Cynllun Achredu Eiddo Trefforest, menter gyda'r awdurdod lleol i godi safonau yn y sector rhentu preifat.

Gwelwn fod gan bob sefydliad yng Nghymru amrywiaeth o arferion a deunydd cyfathrebu ynghylch tai nad ydynt yn eiddo i brifysgolion. Mae hefyd yn glir, er gwaethaf ymdrechion a wneir ym mhob lleoliad, fod problemau parhaus yn dal i fodoli – er gwaethaf y rheolaethau a'r camau lliniaru sydd ar waith.

Mae atebolrwydd landlordiaid ac opsiynau ar gyfer cymorth yn gyfyngedig ac nid yw myfyrwyr yng Nghymru'n eu deall. Roedd nifer o ymatebion i'n cwestiwn yn dadlau dros well dealltwriaeth o'r rheolau ynghylch llety myfyrwyr ac ymwybyddiaeth well o sut i herio arferion annheg - gyda neu heb gefnogaeth.

**Lleithder, Cyflwr Gwael ac Ansawdd**
Efallai nad yw'n syndod bod ymateb cyffredin arall yn canolbwyntio ar ansawdd llety myfyrwyr, gan dynnu sylw'n arbennig at broblemau amlwg fel lleithder a diffyg atgyweirio. Fel gyda'r thema flaenorol, roedd y problemau hyn wedi'u lledaenu ar draws y gwahanol fathau o lety ac nid yn unigryw i un sector penodol.

# THEMÂU ALLWEDDOL A YSTYRIWYD

Rhannodd ymatebwyr bryderon yn benodol am y cyflymder a'r awydd i drwsio problemau mewn llety ar ôl rhoi gwybod amdanynt, ac am y diwylliant ynghylch ansawdd llety myfyrwyr yn ehangach a'r angen am safonau gorfodadwy clir y gall tenantiaid eu defnyddio i ddal darparwyr llety i gyfrif. Dyma rai enghreifftiau:

> Dyw'r adeiladau byth yn cael eu trwsio, dwi'n gwybod bod y llety'n rhad, ond am y pris dwi'n ei dalu dylai'r tyllau yn fy wal o leiaf gael eu trwsio" - myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

> Mae yna angen dybryd am waith trwsio difrifol ar ein campws. Mae llwydni yn y rhan fwyaf o adeiladau ac mae adeiladau llety y myfyrwyr rhyngwladol bron â syrthio'n ddarnau. Fe wnes i adael ein llety myfyrwyr ni oherwydd cyflwr rhai o'r adeiladau" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

> Dyw'r prif olau yn fy stafell wely heb weithio am dros flwyddyn er mod i wedi cysylltu â'r landlord sawl gwaith" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Roedd sawl ymateb yn nodi arafwch a difaterwch o ran trwsio problemau mewn llety myfyrwyr – ym mhob sector. Cafwyd cyfeiriadau at ddiwylliant difater o'r fath yn yr ymatebion ehangach i'r cwestiwn hwn. Soniodd sawl myfyriwr am eu perthynas â'u darparwr llety, iddynt gael yr argraff bod yna ddisgwyl i fyfyrwyr dderbyn amodau gwaeth am mai myfyrwyr oedden nhw.

**Atgyfeirio, cymorth a chefnogaeth**

Nid yw'n syndod felly fod nifer o fyfyrwyr wedi ymateb trwy awgrymu y byddai cael cyngor a chymorth a oedd yn fwy hygyrch yn newid cadarnhaol. Dengys ein canfyddiadau mai'r lle y mae dros hanner ein hymatebwyr yn troi am gymorth yw at eu ffrindiau a'u teulu. Roedd eu hundebau myfyrwyr a'u darparwyr addysg hefyd yn ffynonellau cymorth cyffredin, serch hynny nid oedd gwasanaethau cynghori proffesiynol fel Shelter Cymru a Chyngor ar Bopeth yn ymddangos hanner cymaint.

Mae capasiti, profiad ac arbenigedd i gefnogi myfyrwyr gyda'u hanghenion tai yn amrywio ledled Cymru. Mae myfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr AU yn llawer mwy tebygol o allu cael gafael ar gymorth gan eu hundeb myfyrwyr neu eu darparwr addysg, ond mae'r cymorth hwn yn amrywio ar draws y sector. Mae myfyrwyr mewn lleoliadau addysgol eraill, fel AB a dysgu seiliedig ar waith yn llawer llai tebygol o allu cael gafael ar gymorth drwy undeb myfyrwyr neu eu darparwr.

> I'r rhai mewn tai preifat sydd ddim yn eiddo i'r brifysgol, mae angen i'r brifysgol ddarparu rhwydwaith cymorth, oherwydd mae'n teimlo nad oes gennych chi unlle i droi pan fydd problemau'n codi pan na allwch chi siarad â'ch landlord neu'r asiantaeth gosod eiddo. Hefyd, mae yna rai problemau difrifol gydag asiantaethau gosod eiddo'n codi crocbris am dŷ preifat i fyfyrwyr rhyngwladol" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

> mwy o gymorth, mwy o reoleiddio, mwy o wybodaeth am hawliau. Mwy o lety prifysgol yn lle llety preifat" - myfyriwr yn byw yn y sector rhentu preifat.

> Sefydliad annibynnol a fyddai'n helpu myfyrwyr (yn enwedig myfyrwyr rhyngwladol) i BEIDIO Â syrthio'n ysglyfaeth i asiantau rhentu anobeithiol a landlordiaid ofnadwy" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Roedd problemau myfyrwyr rhyngwladol yn fwy amlwg gydol yr adran hon, gyda nifer o ymatebion yn nodi y byddai cymorth gwell, gyda mwy o ffocws i fyfyrwyr rhyngwladol yn newid cadarnhaol.

# THEMÂU ALLWEDDOL A YSTYRIWYD

I'r rhai mewn tai preifat sydd ddim yn eiddo i'r brifysgol, mae angen i'r brifysgol ddarparu rhwydwaith cymorth, oherwydd mae'n teimlo nad oes gennych chi unlle i droi pan fydd problemau'n codi pan na allwch chi siarad â'ch landlord neu'r asiantaeth gosod eiddo. Hefyd, mae yna rai problemau difrifol gydag asiantaethau gosod eiddo'n codi crocbris am dŷ preifat i fyfyrwyr rhyngwladol" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth

**Diwylliant o ddifaterwch**

Yn anffodus, nid yw hon yn broblem newydd. Ers 2012 mae'r NUS wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau o'r enw Homes Fit for Study. Roedd eu hadroddiad yn 2014 yn edrych ar y problemau hyn a dywedodd yr Is-Lywydd Lles ar y pryd "y canfyddiad cyffredin sy'n bodoli yw bod dioddef llety o ansawdd gwael yn ddefod bywyd i fyfyrwyr, mae hyn yn ffiaidd ac annerbyniol fod disgwyl i fyfyrwyr fyw mewn tai sy'n fyw o lygod yn y byd modern."

Eto, mae llawer o'n hymatebwyr yn rhannu straeon tebyg, gan awgrymu bod y diwylliant hwn o ddifaterwch yn parhau ledled Cymru, mewn pob math o lety.

Dwi'n teimlo bod nhw ddim yn gofalu am fyfyrwyr. Mae neuaddau myfyrwyr o safon isel bob amser" – myfyriwr yn byw mewn llety pwrpasol i fyfyrwyr.

Maen nhw'n manteisio ar fyfyrwyr ac yn cymryd y gallan nhw godi gormod arnyn nhw a'u twyllo i dderbyn pethau e.e. peidio â delio â llygod neu wneud gwaith cynnal a chadw" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Mae'r ffaith ein bod ni'n fyfyrwyr yn gwneud i landlordiaid feddwl ein bod ni'n haeddu byw mewn tŷ llaith gyda nifer o bethau wedi torri" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Mae disgwyl i fyfyrwyr fyw mewn amodau byw ofnadwy dim ond am mai dyna 'ffordd o fyw myfyrwyr'" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Mae gormod o landlordiaid yn gallu gwneud fel y mynnan nhw a darparu tai annigonol gyda llwydni a phethau wedi torri am brisiau drud a does gennym ni fawr o rym i'w gorfodi i newid neu wella safon y tai sydd ar gael" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Nid dim ond difaterwch o ran safonau ac ansawdd a welwyd yn y diwylliant hwn, gan fod sawl myfyriwr wedi crybwyll ymddygiad ymosodol, anghwrteisi a phobl yn cymryd mantais arnynt, yn enwedig yn y sector rhentu preifat.

Fe fydden i'n ceisio newid agwedd asiantaethau gosod eiddo tuag at fyfyrwyr. Maen nhw'n nawddoglyd ac anghwrtais, ac fe gefais i brofiad gwael. Byddai'r profiad yn llawer gwell pe bydden nhw'n fy mharchu i a'r rhai sy'n rhannu tŷ gyda mi fel oedolion sy'n chwilio am rywle i'w rentu" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Mae asiantaethau gosod eiddo'n gwybod y gallan nhw gymryd mantais ar bobl sy'n rhentu tŷ am y tro cyntaf yn aml"- myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Mae llawer o'r asiantaethau gosod tai yn cymryd mantais arnom ac mae hyn yn dangos pa mor dda i ddim, ymosodol ac ystrywgar ydyn nhw" - myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

Mae angen safonau byw uwch. Roedd yna graciau ym mhob un wal, yn cynnwys un yn y stafell fyw oedd yn ddigon mawr i chi allu gweld

# CASGLIADAU

y stryd drwyddo. Ond pan ddaeth swyddog o'r cyngor draw i weld cyflwr y tŷ fe ddywedodd ei fod yn un o'r goreuon a'n bod ni'n lwcus. Roedd hi'n annioddefol yno yn y gaeaf! A phan roedden ni'n cwyno wrth y landlord ei ateb o oedd bod gwres yn cael ei golli o'r lloriau (lloriau laminedig drwy'r tŷ) ac y dylem "gael ryg" - myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

## CASGLIADAU

Mae'r arolwg hwn yn dangos bod amrywiaeth o broblemau sylweddol gyda'r sector llety myfyrwyr ledled Cymru. Mae problemau hirhoedlog fel llety o ansawdd gwael, fforddiadwyedd a goblygiadau ariannol a diwylliant o ddifaterwch ynghylch llety myfyrwyr yn faterion sydd heb gael unrhyw sylw priodol hyd yma.

Nid yw'n gyfrinach fod prifysgolion Cymru eisoes mewn sefyllfa ariannol anodd cyn pandemig Covid-19 hyd yn oed. Cafwyd galwadau am gynyddu ffioedd dysgu er mwyn helpu i liniaru'r problemau hyn ac mae nifer o brifysgolion fel Prifysgol Bangor University, Prifysgol De Cymru a Prifysgol Caerdydd wedi ailstrwythuro ar raddfa fawr er mwyn arbed arian. Priodolwyd llawer o'r anawsterau i'r 'farchnad hynod gystadleuol' sy'n ei gwneud hi'n anodd i brifysgolion Cymru gystadlu â phrifysgolion eraill y DU.

Un ffordd bosibl o hyrwyddo Cymru fel lle mwy deniadol i astudio - ac felly helpu i gefnogi ein sector addysg ôl-16 - yw sicrhau bod llety myfyrwyr yng Nghymru ymhlith y goreuon. Drwy benderfynu mynd i'r afael â rhai o'r problemau y soniwyd amdanynt uchod a chyfathrebu'r llwyddiant hwn i ddarpar fyfyrwyr, mae gan sector ôl-16 Cymru a Chymru'n ehangach gyfle i osod ei hun mewn lle unigryw a fyddai'n ddeniadol i fwy o fyfyrwyr.

Mae goblygiadau llety myfyrwyr gwael yn wirioneddol real. Mae'r ffaith fod dros 60% o ymatebwyr yn dweud bod profiadau gwael gyda'u llety yn cael effaith ar eu hiechyd a'u lles meddwl yn dangos methiant sylweddol yn y system. Gwyddom fod iechyd a lles meddwl gwael yn broblem sydd wedi effeithio ar ormod o fyfyrwyr yng Nghymru a thu hwnt yn rhy hir o lawer, er gwaethaf ymyriadau ailadroddus gan y llywodraeth a'r sector addysg. Drwy sicrhau bod gan bob myfyriwr rywle saff, diogel a safonol i'w alw'n gartref, gallwn ddechrau datrys y sefyllfa hon.

Er gwaethaf y newidiadau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cyflwyno i Cyllid Myfyrwyr Cymru yn sgil Adolygiad Diamond, mae fforddiadwyedd a chyllid yn parhau i fod yn broblem i fyfyrwyr Cymru. Efallai mai'r rheswm am hyn yn rhannol yw nad yw myfyrwyr o wledydd eraill y DU a thu hwnt yn gymwys i dderbyn cyllid gan Cyllid Myfyrwyr Cymru, fodd bynnag fel y dangosodd ein dadansoddiad byr o fforddiadwyedd yn gynharach yn y papur - mae fforddiadwyedd yn debygol o barhau i fod yn broblem allweddol i fyfyrwyr o Gymru hefyd. Yn arbennig, gwyddom y bydd fforddiadwyedd yn cael effaith fwy difrifol ar fyfyrwyr â nodweddion gwarchodedig. Mae'n debygol y bydd fforddiadwyedd yn cael effaith anghymesur ar fyfyrwyr ag anableddau, fel y dangosodd adroddiad diweddar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Housing and Disabled People.

Ond efallai mai'r allwedd i wireddu gwelliannau ym maes llety myfyrwyr yw gweddnewid y diwylliant sydd wedi meddiannu'r sefyllfa. Pan ofynnwyd pa beth sylfaenol y gallai myfyrwyr ei newid o ran llety myfyrwyr pe bai'r grym ganddynt – cawsom ein synnu gan gynifer a atebodd yr hoffent i fyfyrwyr gael eu trin yr un fath â phobl eraill sy'n rhentu:

> I fyfyrwyr gael eu parchu fel unrhyw oedolyn arall sy'n rhentu" – myfyriwr yn rhentu mewn tŷ amlfeddiannaeth.

# CASGLIADAU

"Dyw'r ffaith ein bod ni'n fyfyrwyr ddim yn golygu y dylem gael ein trin yn wahanol i oedolion eraill" – myfyriwr yn rhentu yn y sector rhentu preifat.

Mae'r canfyddiad hwn, sef bod pob myfyriwr yn byw mewn tŷ gwael a bod hynny'n rhan o'r daith, yn annheg ac yn gelwydd. Gall y diffyg empathi neu gymdeimlad y mae myfyrwyr yn ei deimlo wrth geisio llywio trwy'r farchnad lety ddeillio o nifer o resymau. O atgofion pobl o'u hamser fel myfyrwyr, i argraffiadau neu ddisgwyliadau cymdeithas neu rywbeth arall yn llwyr. Beth bynnag yw'r rheswm, mae'n amlwg bod angen i ni newid y diwylliant cyfredol sydd gan lety myfyrwyr os ydym mewn difrif yn awyddus i wella profiadau myfyrwyr yng Nghymru a'u llety.



# ARGYMHELLION

Credwn y gall yr argymhellion canlynol ddechrau'r broses o gyflwyno'r newid gwirioneddol sydd ei angen er mwyn datrys y problemau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

1. **Rhaid i'r holl fyfyrwyr gael yr un hawliau ac amddiffyniadau ble bynnag maent yn byw**
   Mae'r farchnad dai myfyrwyr yn bodoli ar gyfer myfyrwyr. Dylai pob myfyriwr gael yr un amddiffyniadau â phob myfyriwr arall beth bynnag yw ei gefndir neu pwy bynnag yw ei ddarparwr llety. Rhaid i'r system ddechrau gyda'r myfyriwr, nid gyda'r landlord.

2. **Rhaid i bob myfyriwr allu dal ei landlord i gyfrif**
   Rhaid sicrhau atebolrwydd priodol i ddarparwyr sy'n torri'r rheolau. Waeth pa fath o ddarparwr ydynt, mae'n rhaid dal pob un i'r un safon ac mae'n rhaid i fyfyrwyr allu cael gafael ar gymorth yn syml a hawdd.

3. **Rhaid i bob myfyriwr allu fforddio byw mewn tŷ diogel ac iach**
   Mae fforddiadwyedd yn diflannu o'r sector. Mae'r system gyfredol yn cosbi'r rhai tlotaf ac mae nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yn lleihau bob blwyddyn. Ni ddylai myfyrwyr orfod dewis rhwng fflatiau llaith neu dalu rhenti gwirion o uchel.

